28. Esboniodd y grŵp ei bod yn **“hawdd cael gafael” ar sylweddau seicoweithredol newydd** a'u bod yn arfer cael eu gwerthu ar stondin ym marchnad Merthyr. Mae'r stondin bellach wedi cau, oherwydd pwysau gan yr heddlu. Aeth y grŵp ymlaen i esbonio bod llawer o bobl ifanc yn y gymuned bellach yn teithio i Gaerdydd a Phontypridd lle mae sylweddau seicoweithredol newydd ar gael mewn marchnadoedd a siopau am brisiau rhad.
29. Nododd y cyfranogwyr fod 'black mamba' (tebyg i ganabis cryf) yn **boblogaidd mewn carchardai**. Am nad oes arogl cryf gan 'black mamba', nid yw wardeiniaid yn sylwi arno pan gaiff ei ysmygu.
30. Pwysleisiodd y cyfranogwyr bwysigrwydd addysgu a chodi ymwybyddiaeth. Nododd y grŵp fod **diffyg gwybodaeth am effeithiau a goblygiadau cymryd sylweddau seicoweithredol newydd**.
31. Pwysleisiodd y grŵp hefyd y **dylai pobl ifanc allu siarad yn agored am eu profiadau gyda sylweddau seicoweithredol newydd** ac unrhyw bryderon cysylltiedig â hynny, heb ofni bod mewn trwbwl. Nodwyd ofni'r

canlyniadau a diffyg cyfrinachedd fel rhwystrau i bobl gydnabod eu bod wedi defnyddio sylweddau seicoweithredol newydd neu'n eu defnyddio o hyd.

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Ymchwiliad i sylweddau seicoweithredol newydd (“cyffuriau penfeddwol cyfreithlon”)

Nodyn ar drafodaethau'r grwpiau ffocws, 2 Hydref 2014

1. Estynnodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol wahoddiad i gynrychiolwyr o elusennau, llywodraeth leol, yr heddlu, timau camddefnyddio sylweddau a gweithwyr proffesiynol iechyd i gymryd rhan mewn trafodaethau mewn grwpiau ffocws ar 2 Hydref. Diben y trafod yn y grwpiau ffocws oedd dysgu rhagor am y canlynol:
 - lefel yr ymwybyddiaeth o sylweddau seicoweithredol newydd (NPSs) a'u risgiau ymhlith defnyddwyr, gwasanaethau'r rheng flaen, a'r cyhoedd yn gyffredinol;
 - gallu'r gwasanaethau cyhoeddus a gwirfoddol i ymdopi â defnydd y sylweddau hyn;
 - lefel yr wybodaeth sydd ar gael o ran pa mor gyffredin yw'r sylweddau hyn a beth yw eu heffaith;
 - yr ysgogiadau sydd efallai ar gael yng Nghymru, neu yng nghydestun ehangach y Deyrnas Unedig, i fynd i'r afael â chynhyrchu, gwerthu a defnyddio'r sylweddau hyn;
 - unrhyw arferion da wrth fynd i'r afael â defnydd y sylweddau hyn sy'n bodoli yng Nghymru neu y tu allan.
2. Er mwyn casglu profiadau o bob rhan o Gymru, ymrannodd y Pwyllgor yn ddau grŵp. Aeth y naill i Ferthyr Tudful a'r llall i Wrecsam. Yr Aelodau¹ fu'n hwyluso'r grwpiau ffocws unigol yn y ddau le, gan ofyn barn y cyfranogwyr am nifer o themâu, yn ogystal ag am unrhyw bwyntiau eraill yr oeddent am eu codi. Cafodd canlyniadau'r trafod eu casglu yn ystod sesiwn llawn. Ar y trafodaethau llawn yn bennaf y mae'r nodyn hwn yn canolbwyntio, ond mae'n cynnwys hefyd rai materion a godwyd yn y grwpiau unigol. Cafodd llawer o'r themâu hyn eu codi hefyd yn ystod cyfres o ymweliadau anffurfiol a gynhaliodd yr Aelodau

¹ Yr Aelodau a fu'n bresennol: Gogledd – Janet Finch-Saunders, Darren Millar a David Rees; De – John Griffiths, Lynne Neagle, Gwyn Price, Lindsay Whittle a Kirsty Williams.

ar 2 Hydref 2014. Mae nodyn ar yr ymweliadau anffurfiol ar gael ar [dudalen we yr ymchwiliad](#).

3. Roedd yn glir ar sail y trafod yn y Gogledd a'r De fod cynnydd wedi bod o ran defnyddio NPSs yng Nghymru yn y blynyddoedd diwethaf. Er hynny, nodwyd nad oes gan ddarparwyr gwasanaethau ddata dibynadwy ynghylch defnyddio NPSs ar hyn o bryd. Awgrymodd y trafod nad yw ymwybyddiaeth y cyhoedd, y gwasanaethau sy'n cael eu darparu, na'r trefniadau deddfwriaeth wedi datblygu yr un mor gyflym â'r cynnydd yn y defnydd, ac mai gwael yw'r wybodaeth am effaith NPSs ar hyn o bryd ac yn y dyfodol. Er bod pocedi o ymarfer da i'w cael o ran addysgu pobl am NPSs a helpu'r rhai y maent yn effeithio arnynt, cafwyd consensws yn gyffredinol bod gwaith sylweddol eto i'w wneud er mwyn deall y broblem gynyddol hon a mynd i'r afael â hi.
4. Mae'r Pwyllgor am gofnodi ei ddiolch i'r rhai a gymerodd amser i siarad â'r Aelodau Cynulliad ym Merthyr Tudful a Wrecsam.

Thema 1: Ymwybyddiaeth o sylweddau seicoweithredol newydd (NPSs)

Ymwybyddiaeth o'r risgiau a'r arwyddion rhybuddio sy'n gysylltiedig ag NPSs

5. Y consensws yn y grwpiau yn y De a'r Gogledd oedd mai isel iawn oedd yr ymwybyddiaeth o NPSs a'u risgiau. Nodwyd bod yr ymwybyddiaeth yn annigonol nid yn unig ymysg defnyddwyr, ond hefyd ymysg aelodau eu teuluoedd a'r cyhoedd yn ehangach, yn ogystal ag ymysg staff y gwasanaethau cyhoeddus perthnasol. Pwysleisiwyd y canlynol:
 - anaml y bydd pobl yn gwybod beth sydd mewn NPSs, a does dim dealltwriaeth dda o'r effeithiau yn y fan a'r lle nac yn y tymor hir;
 - nid yw'r defnyddwyr bob amser yn ymwybodol y gall NPSs fod yn gryfach ac yn fwy peryglus na chyffuriau anghyfreithlon;
 - nid yw athrawon, gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol, na'r rhai sy'n gweithio yn y system cyfiawnder troseddol bob amser wedi'u hyfforddi neu wedi'u paratoi i sylweddoli bod NPSs wedi'u defnyddio, nac i wybod beth i'w wneud os byddant yn amau bod NPSs wedi'u defnyddio;
 - mae yna gamargraff mai mater sy'n effeithio ar bobl ifanc yn unig yw hwn; ac

- mae hyd yn oed gweithwyr profiadol ym maes camddefnyddio sylweddau yn teimlo eu bod heb sgiliau a hynny am fod NPSs yn gymharol newydd a heb gael eu deall yn dda.
6. Cyfeiriodd nifer o gyfranogwyr at brosiect Cyffuriau Newydd ac Adnabod Sylweddau Newydd Cymru (WEDINOS) fel prosiect gwerthfawr o ran darparu gwybodaeth am gynnwys NPSs. Pwysleisiwyd mor bwysig yw casglu gwybodaeth am y sylweddau sy'n cylchredeg ar y strydoedd. Er hynny, nododd rhai cyfranogwyr fod yna dystiolaeth i awgrymu bod cyflenwyr NPSs yn defnyddio gwasanaeth WEDINOS i brofi eu sylweddau er mwyn dilysu nad ydynt yn cynnwys olion sylweddau anghyfreithlon.
 7. Cyfeiriodd cyfranogwyr yng ngrŵp y Gogledd at offeryn ar-lein arall, cronfa ddata TICTAC, at adnabod cyffuriau solet yn weledol. Nid yw'r gronfa ddata hon ar gael i'r cyhoedd, ond mae'n cael ei defnyddio gan asiantaethau cyfraith a threfn, y gwasanaeth iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a'r gwasanaeth addysg, a chan y diwydiannau fferylliaeth a bwyd. Gofynnodd rhai cyfranogwyr a oedd yna ddyblygu rhwng elfennau yng ngwaith WEDINOS a gwaith TICTAC.

Codi ymwybyddiaeth

8. Pwysleisiodd nifer o gyfranogwyr mor bwysig oedd addysg briodol ar oedran cynnar er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r risgiau ynglŷn ag NPSs. Gan gyfeirio at ganlyniadau arolwg a gomisiynwyd gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a nododd fod 21% o bobl wedi dysgu am NPSs drwy'r ysgol, awgrymwyd bod angen gwaith sylweddol i sicrhau bod yr addysgwyr eu hunain yn cael hyfforddiant priodol. Nododd y cyfranogwyr fod angen i'r hyfforddiant hwnnw adlewyrchu'r newidiadau yn y tirlun o ran cyflenwi a defnyddio cyffuriau sydd erbyn hyn yn cynnwys NPSs yn ogystal â'r sylweddau anghyfreithlon, dosbarthol, mwy traddodiadol. Awgrymwyd hefyd y dylai cynddefnyddwyr gael eu cynnwys wrth ddylunio a rhoi'r hyfforddiant hwn.
9. I lawer o ddefnyddwyr, darparwyr gwasanaethau a'r cyhoedd yn gyffredinol, cydnabuwyd ei bod yn rhy hwyr defnyddio cyfleoedd yn yr ysgol i godi ymwybyddiaeth o risgiau NPSs. O ganlyniad, awgrymwyd y dylai gwaith gael ei wneud gyda'r cyfryngau - y dywedodd 57% o'r

ymatebwyr i arolwg y Pwyllgor eu bod wedi dysgu am NPSs drwyddynt – i wella amlygrwydd ac ansawdd yr wybodaeth gyhoeddus am y sylweddau hyn. Pwysleisiodd y cyfranogwyr rôl bosibl hyfforddiant gan gymheiriaid i'w cymheiriaid. Teimlid bod angen i adnoddau ar gyfer unrhyw ymgyrch codi ymwybyddiaeth a fyddai'n targedu pobl ifanc gael eu datblygu mewn partneriaeth â nhw, a'u llunio yn eu hiaith nhw a hynny mewn amryw o gyfryngau.

10. Pwysleisiodd y rhai a oedd yn gweithio yng ngwasanaethau'r rheng flaen fod angen cynnwys hyfforddiant ar NPSs fel rhan o'u datblygu proffesiynol.
11. Un thema glir ynglŷn â chodi ymwybyddiaeth oedd bod angen sicrhau bod gwybodaeth am NPSs yn cael ei theilwra at y gynulleidfa berthnasol a'i bod yn amserol, yn berthnasol ac yn briodol i'r sector – neu'r oed. Dadleuai rhai o'r cyfranogwyr fod diffyg cydlynedd yn y negeseuon a oedd yn cael eu lledaenu ynghylch NPSs, gan awgrymu bod yna le i Llywodraeth Cymru arwain ynglŷn â datblygu pecyn o wybodaeth awdurdodol a chyson. Awgrymwyd y byddai gwybodaeth wedi'i chomisiynu gan y Llywodraeth yn rhoi dilysrwydd i'r cynnwys a fyddai'n cael ei barchu gan ymarferwyr yn gweithio yn y maes.

Terminoleg

12. Un thema gref a ddaeth allan o'r trafod yn y ddau grŵp ffocws oedd pwysigrwydd defnyddio terminoleg gyfrifol i godi ymwybyddiaeth o gynnwys ac effeithiau posibl NPSs. Nododd cyfranogwyr fod y term “cic gyfreithlon” – yn enwedig defnyddio'r gair “cyfreithlon” – yn niweidiol am ei fod yn awgrymu bod y sylweddau hyn yn ddiogel i'w defnyddio. Awgrymodd nifer o gyfranogwyr y dylid osgoi'r term “cic gyfreithlon”, yn enwedig gan weithwyr proffesiynol perthnasol, i helpu i datrys rhai o'r camagraffiadau sydd gan bobl ynghylch diogelwch NPSs. Teimlid bod angen inni chwalu'r myth eu bod yn siŵr o fod yn fwy diogel ac yn llai o risg am eu bod yn gyfreithlon.
13. Nodwyd nad yw llawer o'r rhai sy'n defnyddio NPSs yn adnabod termau fel “sylweddau seicoweithredol newydd” neu “gic gyfreithlon”, gan eu bod yn defnyddio enwau'r stryd ar y sylweddau y maent yn eu

defnyddio. O ganlyniad, pan fydd staff y rheng flaen yn ceisio cael gwybod a yw rhywun wedi defnyddio NPSs, awgrymwyd y dylai cwestiynau mwy agored gael eu gofyn, megis “ydych chi wedi cymryd unrhyw bowdwr, tabledi ac ati?”.

Thema 2: Argaeledd, capasiti ac ansawdd gwasanaethau

Argaeledd a chapasiti gwasanaethau

14. Nodwyd bod y ffaith bod NPSs ar gael yn rhwydd ar y rhyngwrdd yn golygu bod cyflenwad ar gael ym mhobman bron a'i fod yn gallu effeithio ar ardaloedd gwledig a threfol fel ei gilydd. Dywedodd cyfranogwyr mai amrywiol oedd y ddarpariaeth gwasanaethau i ymdrin â defnydd NPSs oedd yn ymddangos fel pe bai'n digwydd yn eang ledled Cymru, a bod y capasiti mewn ardaloedd gwledig yn tueddu i fod yn ddiffygiol. Un enghraifft o'r ymdrechion sydd wedi'u gwneud i ddatrys hyn oedd defnyddio rhaglenni estyn allan, fel y bws estyn allan sydd ar waith gan yr elusen Drugaid.
15. Tynnwyd sylw at effeithiau'r cynnydd yn defnydd NPSs ar wasanaethau, yn enwedig felly o ran y cynnydd yn y galw am gymorth iechyd meddwl, gwasanaethau gorfodi'r gyfraith a gwasanaethau asiantaethau sy'n ymwneud ag ymladd yn erbyn ecsbloetio menywod. Pwysleisiwyd mor bwysig oedd ad-drefnu gwasanaethau cyhoeddus a gwirfoddol fel eu bod yn gallu ymdrin ag effaith defnydd NPSs (o'u cyferbynnu â sylweddau anghyfreithlon).
16. Nodwyd y diffyg ymwybyddiaeth ynghylch effaith NPSs ar gapasiti ac ansawdd y gwasanaethau sydd ar gael, a'r diffyg hyfforddiant ynglŷn â'r effaith honno. Awgrymwyd bod hyn ar ei fwyaf amlwg yng ngwasanaethau'r rheng flaen megis yr heddluoedd ac adrannau damweiniau a brys, sydd ill dau yn ei chael yn anodd adnabod defnyddwyr NPSs ac, o'r herwydd, yn ei chael yn anodd eu cyfeirio at wasanaethau perthnasol.
17. Soniodd un o'r grwpiau ffocws yn y sesiwn ym Merthyr Tudful fod y sylw fel pe bai'n cael ei roi ar fathau penodol o gamddefnyddio sylweddau fel alcohol, sy'n mynd ag adnoddau i ffwrdd o ddelio â mathau eraill o

gamddefnyddio sylweddau fel NPSs. Teimlai'r grŵp na ddylai NPSs gael eu hystyried ar eu pen eu hunain, a bod yna lawer iawn o bendilio rhwng camddefnyddio sylweddau cyfreithlon ac anghyfreithlon ymhlith defnyddwyr NPSs.

18. Enwyd gweithgareddau difyrru² fel rhan bwysig o'r cymorth cychwynnol. Er bod y cymorth cychwynnol yn defnyddio llawer o adnoddau, awgrymwyd y gall fod yn effeithiol; serch hynny, mae yna fwy o broblem wrth geisio sicrhau'r mathau hyn o wasanaethau yng nghefn gwlad.
19. Nodwyd bod rhai effeithiau canlyniadol yn sgil defnyddio NPSs, er enghraifft ymddygiad gwrthgymdeithasol a throeddau, yn gallu arwain at fwy o risg o ddirgaredd. Gall hynny arwain at bwysau ar wasanaethau cyhoeddus eraill.

Ansawdd gwasanaethau a chydlynu gwasanaethau

20. Un o'r problemau a nododd y grwpiau ffocws yw nad yw gwasanaethau bob amser yn cydweithio i ymateb i effaith NPSs, ac nad yw eu horiau agor yn ddigon hyblyg i ymateb i ddiwylliant o gamddefnyddio sylweddau 24/7. Nodwyd bod angen gwell cydlynu ar wasanaethau a chydweithio er mwyn gwella ansawdd ac effeithiolrwydd wrth gyflawni gwasanaethau. Pwysleisiwyd bod yna bocedi o ymarfer da, a bod y broses o rannu gwybodaeth ar draws asiantaethau'n gwella (e.e. rhwng rhai heddluoedd ac elusennau), ond roedd rhai cyfranogwyr yn credu bod y gwasanaethau cyhoeddus weithiau'n anfodlon cydweithio a/neu yn ei chael yn rhy anodd cydweithio. Nodwyd bod angen i lwybr gofal defnyddwyr NPSs fod yn gliriach.
21. Pwysleisiodd nifer o gyfranogwyr fod y diffyg tystiolaeth a'r diffyg data cadarn ar ddefnyddio NPSs yn creu effaith uniongyrchol ar ddatblygu gwasanaethau effeithlon o safon, ac ar allu'r gwasanaethau i gynllunio ymateb cydlynol. Ystyrir gwaith i gasglu a defnyddio data yn fanylach yn yr adran nesaf.

² Mae gweithgareddau difyrru'n cael eu trefnu i dynnu sylw defnyddwyr neu ddarparu ddefnyddwyr NPSs ar yr adegau y maent yn fwyaf tebyg o droi at NPSs ac er mwyn rhoi rhywbeth arall i'w hysgogi.

Thema 3: Casglu a defnyddio data am dueddiadau defnyddio cyffuriau

22. Pwysleisiodd cyfranogwyr yn y Gogledd a'r De fod yna ddiffyg dybryd o ran gwybodaeth am raddfa ac effaith defnydd NPSs. Nodwyd mai ychydig iawn sy'n hysbys am broffil y rhai sy'n defnyddio NPSs (e.e. oed, lleoliad, rhyw, statws economaidd) sy'n golygu eu bod yn grŵp anodd iawn eu cyrraedd.
23. Esboniodd darparwyr gwasanaethau fod y diffyg gwybodaeth a thystiolaeth am NPSs wrth iddynt ddod i'r amlwg ac am eu heffaith ar dueddiadau cyffuriau mwy sefydledig yn golygu eu bod nhw, ar y gorau, yn seilio'u dulliau ar wybodaeth storiol a phrofiad uniongyrchol. Pwysleisiwyd mor bwysig oedd cael data, ymchwil a dadansoddiad cadarn i fwydo datblygiadau mewn gwasanaethau.
24. Er eu bod wedi gweld gostyngiad yn nifer y rhai sy'n cael eu cyfeirio am eu bod yn defnyddio opiadau, dywedodd y gweithwyr camddefnyddio sylweddau a oedd yn cymryd rhan yn y drafodaeth yn y Gogledd fod cynnydd yn nifer y cyfeiriadau yn sgil NPSs yn prysur llenwi'r bwlch. Er hynny, nododd y gweithwyr hyn nad oedd ganddynt wybodaeth a allai helpu i esbonio'r duedd, darogan oes y duedd, a bwydo'r ddarpariaeth gwasanaethau at y dyfodol.
25. Tanlinellodd cyfranogwyr fod angen data a thystiolaeth gadarn er mwyn bwydo arferion da a rhoi hwb i'w rhannu ar draws gwasanaethau ac ardaloedd. Awgrymodd un o'r grwpiau a gymerodd ran yn y trafod yn y De fod rhai sefydliadau'n gyndyn o dynnu sylw at broblemau yn eu hardal; nodwyd bod hyn yn cyfyngu ar y gallu i rannu gwybodaeth a chyngor rhwng gwasanaethau. Ar ben hynny, nodwyd ei bod yn anos rhannu gwybodaeth a'r arferion gorau oherwydd cyfyngiadau diogelu data.
26. Awgrymodd cyfranogwyr yn y Gogledd fod angen gwella gallu Cronfa Ddata Genedlaethol Cymru ar Gamddefnyddio Sylweddau (WNDSM) i gasglu data ynglŷn ag anghenion ym maes NPSs. Nodwyd hefyd fod angen sicrhau bod WNDSM yn fwy addas i'r defnyddwyr.

27. Cynigiodd cyfranogwyr yn y De y gallai rhwydweithiau gwybodaeth lleol sydd eisoes yn bodoli ledled Cymru, gan gynnwys unigolion o amryw o ddisgyblaethau a oedd yn cynnwys yr heddlu, gwasanaethau cymdeithasol a fferyllfeydd, fod mewn safle da i rannu gwybodaeth am dueddiadau cyffuriau.

Thema 4: Ysgogiadau i fynd i'r afael â chynhyrchu, gwerthu a defnyddio sylweddau seicoweithredol newydd

Ysgogiadau deddfwriaethol ac eraill

28. Pwysleisiodd cyfranogwyr yn y Gogledd a'r De mor bwysig oedd peidio â dibynnu ar ysgogiadau mewn deddfwriaeth yn unig i fynd i'r afael â materion NPSs. Nododd y grwpiau fod atebion mewn deddfwriaeth yn ei chael yn anodd symud yr un mor gyflym ar hyn o bryd â'r newid yn y tueddiadau o ran defnyddio a chyflenwi NPSs. Roedd y cyfranogwyr yn amau a allai'r gyfraith symud mor gyflym â'r rhai yn y diwydiant sy'n addasu cyfansoddiad sylweddau i aros un cam ar y blaen. Teimlai rhai mai ofer fyddai troi defnyddio NPSs yn drosedd, gan awgrymu na fyddai gan yr heddlu mo'r capasiti i ymdopi â'r galw, ac y byddai dosbarth o droseddwyr yn cael ei greu dros nos. Nododd eraill fod y dystiolaeth storiol yn awgrymu y gall troseddoli sylwedd ei droi yn atyniad mwy deniadol i rai ac arwain at gynnydd yn ei ddefnydd.
29. Awgrymodd rhai o'r cyfranogwyr yn y De nad oedd y penderfyniad diweddaraf i droseddoli cyffur – meffedrôn – wedi cael fawr ddim effaith o ran y galw ymysg defnyddwyr gan fod y sylwedd wedi hen ennill ei blwyf. Yn hytrach, nododd cyfranogwyr fod prif effaith troi'r cyffur yn gyffur anghyfreithlon yn ymwneud â'r modd y mae'r sylwedd yn cael ei werthu, a hwylustod a chost ei brynu.
30. Yn y Gogledd, pwysleisiwyd mor bwysig oedd gofalu peidio â throi'r defnyddiwr yn droseddwr – ond yn hytrach rhoi cymorth i'r defnyddwyr a thargedu'r cyflenwyr. Awgrymodd rhai cyfranogwyr hefyd y gallai troseddoli NPSs yrru eu gwerthwyr a'u defnyddwyr i'r dirgel, heb wneud fawr ddim i ateb yr her o gyrraedd y rhai y mae arnynt angen help a chymorth er mwyn rhoi'r gorau i ddefnyddio'r sylweddau hyn.

31. Awgrymodd cyfranogwyr yn y Gogledd a'r De y dylai'r awdurdodau lleol chwarae mwy o rôl i fynd i'r afael ag NPSs ar y cyd â'r heddlu, drwy gyflawni eu swyddogaethau o dan y Ddeddf Safonau Masnach. Tynnwyd sylw hefyd at yr angen i roi adnoddau digonol i dimau safonau masnach. Cyfeiriodd cyfranogwyr at enghreifftiau o ymyriadau llwyddiannus gan yr heddlu a thimau safonau masnach.
32. Ailadroddwyd mor bwysig oedd cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd er mwyn mynd i'r afael â chynhyrchu, gwerthu a defnyddio NPSs. Galwodd llawer o gyfranogwyr am fwy o ymdrech i sicrhau ymgyrchoedd ymwybyddiaeth gyhoeddus a gwell addysg. Pwysleisiwyd bod 'addysg yn allweddol'. Dywedodd cyfranogwyr yn y De fod angen un pwynt cysylltu ar gyfer gwybodaeth hwylus, ffeithiol, glir a chyson am risgiau ac effeithiau NPSs, ac y dylai'r cyfryngau cymdeithasol gael eu defnyddio i godi ymwybyddiaeth. Awgrymwyd hefyd y gallai adrannau trwyddedu'r awdurdodau lleol helpu i ddatrys problem yr "head shops" sy'n dechrau codi mewn rhai cymunedau. Trafodir y siopau hyn, sy'n gwerthu cyffuriau a gêr cyffuriau, yn fanylach ym mharagraff 39.

Ymagwedd wedi'i chydlynu'n genedlaethol

33. Awgrymodd cyfranogwyr yn nhrafodaethau'r grŵp ffocws yn y De fod angen i'r gweithredu gael ei gydlynu o'r canol, ac y gall fod lle i Lywodraeth Cymru arddel mwy o berchnogaeth dros sut i fynd i'r afael ag NPSs. Soniodd rhai cyfranogwyr am y Cynllun Gweithredu ar Steroidau³ fel model posibl ar gyfer gwaith cydlynu o'r fath.

Gweithio ar draws ffiniau

34. Pwysleisiodd cyfranogwyr y grŵp ffocws yn y Gogledd fod angen i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth a Deyrnas Unedig gydweithio i ddod o hyd i ysgogiadau i fynd i'r afael ag NPSs. Nodwyd bod hyn yn arbennig o wir yn ardaloedd y ffin o gofio lefel y symudiadau ar draws y ffin a natur dyllog y gwasanaethau.

3 Cafodd y Cynllun Gweithredu ar Steroidau ei arwain gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, ag arian gan Lywodraeth Cymru. O dan y cynllun, enwodd pob bwrdd iechyd arweinydd a fyddai'n ymgymryd â hyfforddiant "hyfforddi'r hyfforddwr". Wedyn cafodd yr hyfforddiant ei raeadu drwy'r byrddau iechyd i'r staff eraill. Mae gan y prosiect wefan hefyd: www.siedsinform.co.uk

35. Nododd rhai o'r cyfranogwyr yn sesiwn y De nad oeddent yn gwybod beth oedd yn cael ei wneud gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ynglŷn ag NPSs, os oedden nhw'n gwneud unrhyw beth o gwbl. Nododd cyfranogwyr mor bwysig oedd hi fod Llywodraeth Cymru'n ceisio dylanwadu ar unrhyw ddeddfwriaeth yn y maes hwn yn y dyfodol ar lefel y Deyrnas Unedig.

Thema 5: Enghreifftiau o arferion da

36. Soniwyd am nifer o enghreifftiau o arferion da yng Nghymru yn ystod y trafodaethau, gan gynnwys:
- Gwaith CAIS (y Gwasanaeth Gwybodaeth am Alcohol)⁴ gyda sefydliadau addysg bellach ac uwch yn y Gogledd i roi addysg am NPSs i'r rhai a allai fod wedi syrthio drwy'r rhwyd yn ystod eu blynyddoedd yn yr ysgol;
 - Swyddogion cyswllt ysgolion yr heddlu yn mynd i ysgolion mewn rhannau o'r Gogledd i drafod NPSs;
 - Lleoli timau Cynghori, Adsefydlu, Cwnsela ac Iechyd (ARCH) mewn dalfeydd ar draws y gogledd i sicrhau y gall y rhai sydd yn y ddalfa gysylltu â gwasanaethau cymorth perthnasol ar gyfer camddefnyddio sylweddau [DS. Nododd cyfranogwyr nad gwasanaeth 24/7 mo hwn ac felly nad oedd ar gael i bawb];
 - Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Pobl Ifanc In2change Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn rhoi hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth ynghylch NPSs i bobl broffesiynol, gan gynnwys PCSOs a staff adrannau damweiniau a brys;
 - Gwaith Barnardo's gydag ysgolion Sir Ddinbych i addasu polisïau cyffuriau fel bod disgyblion a welir yn defnyddio cyffuriau yn cael ymyriad 5-niwrnod gyda Barnardo's i ddechrau a chaniatâd i ddychwelyd i'r ysgol heb record yn hytrach na wynebu cael eu gwahardd ar unwaith;

⁴ Mae CAIS yn helpu pobl sy'n cael problemau ynglŷn â chaethineb, iechyd meddwl, datblygu personol a chyflogaeth – yn ogystal â chynnig cymorth a gwybodaeth i'w teuluoedd a'u cyfeillion.

- Prosiect yn Wrecsam o'r enw 'Parent Factor', sy'n agored i gymysgedd o famau sy'n ddefnyddwyr sylweddau a mamau eraill, i roi cyngor a chyfarwyddyd i'w cymheiriaid ar sut i godi plant 'glân';
- [Red button](#) yng Nghaerdydd a'r Fro – 'siop pob peth' ar gyfer gwybodaeth a chyngor ynghylch camddefnyddio sylweddau;
- [Gwefan Strange Molecules](#) ar gyfer gwybodaeth am NPSs;
- [Up2u](#), y Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau i bobl 18 oed neu lai yng Nghaerdydd a'r Fro;
- Bws Estyn Allan Drugaid sy'n rhoi cymorth yn y cymunedau mwyaf gwledig;
- Defnyddio [dull sgrinio ac asesu newydd](#) gan Wasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Pobl Ifanc In2change Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

37. Cafwyd awgrym y dylid dod o hyd i arferion da o rannau eraill o'r byd ac y byddai cynhadledd flynyddol yng Nghymru i rannu syniadau ac arferion yn fuddiol.

38. Roedd yr enghreifftiau o arferion da y tu allan i Gymru yn cynnwys:

- Ymgyrch iechyd cyhoeddus gan Heddlu'r Alban;
- ['Clinigau mewn clybiau'](#) oedd ar waith mewn mannau penodol yn Llundain, yn caniatáu i defnyddwyr NPSs gael cymorth yn haws;
- Newidiadau yn y ddeddfwriaeth yn Seland Newydd i fynd i'r afael â defnyddio NPSs.

Materion eraill a godwyd

Effaith "head shops"

39. Dywedwyd bod yr hyn sy'n cael eu galw'n "head shops" – safleoedd sy'n gwerthu NPSs, a hynny yn aml ar y stryd fawr – yn codi her o bwys i gymunedau a darparwyr gwasanaethau mewn ardaloedd penodol. Tanlinellwyd bod dyfodiad siopau o'r fath fel arfer yn arwain at gynnydd yn nefnydd NPSs, a mwy o ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau yn yr ardal leol.

Cyffredinolrwydd defnydd yn y system cyfiawnder troseddol

40. Nododd cyfranogwyr yn y trafodaethau yn y grŵp ffocws yn y Gogledd fod defnydd NPSs yn “rhemp” ymysg y rhai sydd yn y ddalfa neu yn y carchar. Dadleuwyd bod angen gwneud mwy:
- i addysgu carcharorion am risg defnyddio NPSs;
 - i godi ymwybyddiaeth y staff perthnasol er mwyn caniatáu iddynt adnabod defnyddwyr/atal rhagor o gynnydd o ran defnydd NPSs yn y boblogaeth yn y carchar; ac
 - i ddarparu gwasanaethau cymorth digonol i'r rhai sy'n defnyddio NPSs yn y ddalfa.

Goblygiadau posibl defnydd NPSs ar gyfer iechyd y cyhoedd

41. Nododd rhai o'r cyfranogwyr yn y Gogledd fod natur gudd y boblogaeth sy'n defnyddio NPSs ar y cyfan, a'r ffaith bod y ffiniau rhwng defnyddio sylweddau 'cyfreithlon' ac 'anghyfreithlon' yn mynd yn fwyfwy aneglur yn golygu bod yna berygl nad yw negeseuon pwysig ynghylch iechyd y cyhoedd yn cael eu clywed. Tanlinellwyd y gallai hyn arwain at nifer o anawsterau ym maes iechyd y cyhoedd, ac yn enwedig halogi o ganlyniad i rannu gêr cyffuriau.

Achosion isorweddol defnydd NPSs

42. Cafodd pwysigrwydd mynd i'r afael â'r achosion sydd y tu ôl i ddefnyddio NPSs ei bwysleisio gan rai o'r cyfranogwyr yn y Gogledd. Nodwyd bod llawer o unigolion yn troi at NPSs oherwydd problemau hunan-barch, delwedd y corff, iechyd meddwl, diweithdra, tlodi etc. Awgrymwyd hefyd y gall pobl fod yn defnyddio NPSs fel eu ffordd nhw eu hunain o gymryd moddion neu fffisig.

Y stigma sy'n gysylltiedig â gwasanaethau cymorth

43. Soniodd rhai o'r cyfranogwyr yn y De fod y gwasanaethau traddodiadol sy'n rhoi cymorth cyffuriau wedi'u sefydlu'n bennaf i reoli'r defnydd ar opiadau a bod yna stigma yn aml ynghlŷn ag adeiladau ac awyrgylch canolfannau'r gwasanaethau. Nodwyd bod yna argraff mai defnyddwyr heroin yn bennaf fydd yn bresennol yn y canolfannau hyn. Dywedodd cyfranogwyr fod pobl mewn cymunedau y mae camddefnyddio cyffuriau wedi effeithio arnynt yn aml yn gwrthwynebu lleoli gwasanaethau cymorth yn yr ardal leol, ac y gallai unigolion fod yn fwy anfodlon gofyn

am gymorth am fod arnynt ofn cael eu stigmatiddio. Teimlid y dylai gwasanaethau cymorth cyffuriau gael eu hintegreiddio â gwasanaethau cymorth eraill, lle roedd yn bosibl, er mwyn lleihau stigma.

Eitem 7.3

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol Ymchwiliad i sylweddau seicoweithredol newydd ("cyffuriau penfeddwl cyfreithlon")

Crynodeb o'r arolwg i sylweddau seicoweithredol newydd ("cyffuriau penfeddwl cyfreithlon")

Cefndir

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i'r arolwg ar yr Ymchwiliad i sylweddau seicoweithredol newydd ("cyffuriau penfeddwl cyfreithlon") a gynhaliwyd gan y tîm Allgymorth.

Roedd yr holiadur ar agor i ymgynghoriad ac ymatebion rhwng 21 Gorffennaf a 12 Medi 2014.

Methodoleg

Fel rhan o Ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i sylweddau seicoweithredol newydd ("cyffuriau penfeddwl cyfreithlon"), cynhaliodd y Tîm Allgymorth arolwg ar-lein ac ar bapur. Gofynnwyd i'r rhai a gymerodd ran ateb ystod o gwestiynau a oedd yn ymwneud a diogelwch cyffuriau penfeddwl cyfreithlon, faint wyddon nhw amdanynt, a'u hymwybyddiaeth o'r cymorth a'r gefnogaeth sydd ar gael i'r rhai sydd wedi cymryd cyffuriau penfeddwl cyfreithlon.

Lluniwyd un arolwg, a oedd yn targedu'r cyhoedd yn gyffredinol.

Codi Ymwybyddiaeth

Er mwyn hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r arolwg a denu cyfranogwyr, cysylltodd y Tîm Allgymorth ag ystod eang o sefydliadau. Roedd y rhai y cysylltwyd â hwy wedi gallu codi ymwybyddiaeth mewn amryw o ffyrdd, gan gynnwys rhoi erthyglau ar wefannau; tynnu sylw ar gyfryngau cymdeithasol gan gynnwys Facebook a Twitter; ac anfon negeseuon e-bost yn uniongyrchol at gyfranogwyr.

Bu staff y Cynulliad hefyd yn hyrwyddo'r arolwg ymysg grwpiau perthnasol a oedd yn ymweld â'r Senedd, ac ar ymweliadau addysg, a phan fu cynrychiolwyr y Cynulliad mewn sioeau haf.

Mae dadansoddiad llawn o'r grwpiau, y sefydliadau a'r cyrff y cysylltwyd â hwy i'w weld yn Atodiad A. Mae Atodiad B yn rhoi dadansoddiad ystadegol pellach ar sail oed, rhyw a lleoliad.

Ystadegau Allweddol


1,072 Cyfanswm nifer yr ymatebion a gafwyd i'r arolwg

Crynodeb Daeryddol o'r Ymatebion

Nifer yr ymatebion i'r arolwg a gafwyd gan y cyhoedd wedi'i dadansoddi yn ôl awdurdod lleol.

Cyfanswm: 965

Blaenau Gwent: 7
Pen-y-bont ar Ogwr: 22
Caerffili: 35
Caerdydd: 13
Sir Gaerfyrddin: 129
Ceredigion: 33
Conwy: 114
Sir Ddinbych: 23
Sir y Fflint: 33
Gwynedd: 86
Ynys Môn: 19
Merthyr Tudful: 2
Sir Fynwy: 14
Castell-nedd Port
Talbot: 19
Casnewydd: 41
Sir Benfro: 4
Powys: 33
Rhondda Cynon Taf: 41
Abertawe: 39
Torfaen: 18
Bro Morgannwg: 32
Wrecsam: 34




Crynodeb o'r Ymatebion

Cwestiwn 1 – Mae sylweddau seicoweithredol newydd – neu “gyffuriau penfeddwol cyfreithlon”, fel y cânt eu galw – wedi’u creu i efelychu effeithiau cyffuriau anghyfreithlon. Gan mai sylweddau newydd ydynt, nid ydynt yn cael eu rheoli’n awtomatig gan y deddfau sy’n berthnasol i gyffuriau anghyfreithlon. Dyma rai o’r enwau slang arnynt: “Pandora’s Box”, “Magic Dragon”, “Monkey Dust”, “Plant Food”, “Bath Salts” a “Exodus Damnation”.

Cyn darllen y wybodaeth uchod, oeddech chi’n gwybod beth oedd cyffuriau penfeddwol cyfreithlon?


Cyfanswm nifer yr ymatebion: 1,057

- Oeddwn: **81.92% (866)**
- Nac oeddwn: **9.36% (99)**
- Ansicr: **8.70% (92)**



Cwestiwn 2 – Ble y gwnaethoch chi ddysgu am gyffuriau penfeddwol cyfreithlon? (Ticiwch bob un sy'n berthnasol).


Cyfanswm nifer yr ymatebion: 1,004



- Drwy'r cyfryngau: **56.87% (571)**
- Drwy ffrindiau: **33.76% (339)**
- Drwy brofiad personol: **12.75% (128)**
- Yn yr ysgol/coleg – gwersi camddefnyddio sylweddau: **21.22% (213)**
- Yn y gweithle: **21.02% (211)**
- Drwy ymchwilio ar y rhyngwrwd/ymchwil personol: **18.82% (189)**
- Arall: **7.07% (71)**

Sylwadau – Arall


Tudalen y pecyn 116



Cwestiwn 3 – Ydych chi, neu unrhyw un rydych yn ei adnabod, wedi cael cynnig cyffuriau penfeddwol cyfreithlon erioed?

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 1,060


- Do: **46.32% (491)**
- Naddo: **51.88% (550)**
- Byddai'n well gennyf beidio â dweud: **1.79% (19)**



Cwestiwn 4 – Ydych chi wedi cymryd cyffuriau penfeddwol cyfreithlon erioed?

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 1,057

- Do: **15.99% (169)**
- Naddo: **81.65% (863)**
- Byddai'n well gennyf beidio â dweud : **2.36% (25)**




Cwestiwn 5 – A fydddechystal â nodi a ydych yn cytuno’n gryf; yn cytuno; yn anghytuno; yn anghytuno’n gryf neu ddim yn gwybod, o ran y datganiadau a ganlyn.

“Byddwn i’n gwybod lle i chwilio pe bawn i am gael cyffuriau penfeddwol cyfreithlon”

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 1,033


- Cytuno’n gryf: **23.42% (243)**
- Cytuno: **30.20% (312)**
- Anghytuno: **16.17% (167)**
- Anghytuno’n gryf: **20.62% (213)**
- Wn i ddim: **9.49% (98)**



“Rwy’n gwybod am y peryglon iechyd posibl sy’n gysylltiedig â chymryd cyffuriau penfeddwol cyfreithlon”

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 1,032


- Cytuno’n gryf: **44.8% (462)**
- Cytuno: **39.34% (406)**
- Anghytuno: **7.07% (73)**
- Anghytuno’n gryf: **3.68% (38)**
- Wn i ddim: **5.14% (53)**



“Rwy’n gwybod y gall cyffuriau penfeddwol cyfreithlon gynnwys sylweddau anghyfreithlon”

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 1,034


- Cytuno'n gryf: **42.5% (439)**
- Cytuno: **38.3% (396)**
- Anghytuno: **8.70% (90)**
- Anghytuno'n gryf: **3.77% (39)**
- Wn i ddim: **6.77% (70)**



“Rwy’n fwy tebygol o ddefnyddio cyffuriau penfeddwol cyfreithlon na sylweddau sydd wedi’u gwahardd h.y. cyffuriau Dosbarth A/B/C fel cocên, cannabis neu ecstasi”

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 1,016


- Cytuno’n gryf: **6.49% (66)**
- Cytuno: **15.64% (159)**
- Anghytuno: **23.32% (237)**
- Anghytuno’n gryf: **33.95% (345)**
- Wn i ddim: **10.4% (106)**



“Byddwn i’n gwybod lle i chwilio pe bawn i am gael cymorth, gwybodaeth a chynghor ynghylch cyffuriau penfeddwol cyfreithlon”


Cyfanswm nifer yr ymatebion: 1,022

- Cytuno’n gryf: **23.28% (238)**
- Cytuno: **38.74% (396)**
- Anghytuno: **20.15% (206)**
- Anghytuno’n gryf: **7.43% (76)**
- Wn i ddim: **10.4% (106)**



Cwestiwn 6 – Pe baech chi am gael cymorth, gwybodaeth a chyngor ynghylch cyffuriau penfeddwol cyfreithlon i chi'ch hun, i ffrind neu aelod o'r teulu, i ble y byddech chi'n mynd i gael y wybodaeth hon?

Tudalen y pecyn 123




Cwestiwn 6 – Sylwadau

- Esboniodd 480 o ymatebwyr y byddent yn defnyddio'r rhynggrwyd a pheiriannau chwilio i gael rhagor o wybodaeth;
- Dywedodd 151 o unigolion y byddent yn cysylltu ag elusennau cyffuriau dilys a llinellau cymorth fel Talk to Frank a Dan 24/7;
- Byddai 135 o bobl yn siarad gyda'u meddyg teulu neu'n mynd i glinig iechyd i gael cyngor am gyffuriau penfeddwol cyfreithlon;
- Esboniodd 51 o ymatebwyr y byddent yn cysylltu â gwasanaeth camddefnyddio sylweddau yn eu hawdurdod lleol;
- Dywedodd 46 o unigolion y byddent yn cysylltu â'u hasiantaeth cymorth cyffuriau lleol, e.e. CAIS;
- Ni fyddai 38 o bobl yn gwybod ble i gael rhagor o gymorth, gwybodaeth a chyngor am gyfreithiau penfeddwol cyfreithlon, na sut i gael gafael arnynt;
- Esboniodd 36 o ymatebwyr y byddent yn dod o hyd i ragor o wybodaeth yn yr ysgol neu drwy eu hathrawon;
- Byddai 22 o bobl yn gofyn am gyngor gan eu ffrindiau;
- Byddai 21 o ymatebwyr yn gofyn am gyngor gan aelodau o'u teulu;
- Dywedodd 20 o unigolion y byddent yn defnyddio fforymau ar-lein a ddefnyddir gan bobl a oedd yn defnyddio cyffuriau ar y pryd neu wedi defnyddio yn y gorffennol i gael cymorth, e.e. bluelight.org
- Byddai 16 o bobl yn cysylltu â'u heddlu lleol;
- Esboniodd 8 o ymatebwyr y byddent yn dod o hyd i'r wybodaeth hon drwy eu fforwm ieuencid lleol;
- Byddai 7 o unigolion yn chwilio am gyngor gan gwrselydd cyffuriau;
- Dywedodd 5 o bobl y byddent yn siarad â chydweithiwr neu nyrs alwedigaethol yn eu gweithle;
- Byddai 3 o ymatebwyr yn cysylltu â'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn gyntaf i gael rhagor o gyngor;
- Dywedodd 3 o unigolion y byddent yn cysylltu â'u canolfan leol o Gyngor Ar Bopeth;
- Dywedodd 2 o bobl y byddent yn cysylltu â Llywodraeth Cymru;
- Esboniodd 2 o ymatebwyr y byddent yn siarad â'r sawl sy'n cyflenwi cyffuriau iddynt;

- Byddai 2 unigolyn yn chwilio am gymorth yn eu llyfrgell leol;
- Dywedodd 2 o bobl y byddent yn cysylltu â gweithiwr cymdeithasol;
- Dywedodd 1 unigolyn y byddai'n dod o hyd i gymorth a gwybodaeh mewn cylchgronnau academiaidd;
- Byddai 1 ymatebydd yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gael rhagor o gymorth.

Cwestiwn 7 – Oes gennych chi unrhyw sylwadau neu bwyntiau eraill yr hoffech i'r Pwyllgor eu hystyried fel rhan o'i ymchwiliad i gyffuriau penfeddwol cyfreithlon?

Tudalen y pecyn 126



Sylwadau


- Dywedodd 54 o ymatebwyr y dylai rhagor o wybodaeth fod ar gael i'r cyhoedd yn gyffredinol, yn ogystal â gwell addysg i bobl o bob oed;
- Roedd 42 o bobl yn teimlo mai ofer fyddai gwahardd sylweddau seicoweithredol newydd ac y dylai'r Llywodraeth, yn hytrach, geisio rheoli'r farchnad cyffuriau penfeddwol cyfreithlon a rhoi cyfyngiadau masnachu mwy llym ar siopau sy'n eu gwerthu;
- Roedd 39 o ymatebwyr yn teimlo'n gryf y dylid diwygio'r gyfraith er mwyn cau'r bylchau "cyfreithlon". Mae gwneuthurwyr sylweddau seicoweithredol newydd un cam ar y blaen bob amser ac mae angen i'r gyfraith allu ymateb i hyn;
- Roedd 25 o bobl yn teimlo fod angen cynnal rhagor o waith ymchwil i'r risgiau iechyd sy'n gysylltiedig â chymryd sylweddau "cyfreithlon", a chymharu'r niwed sy'n gysylltiedig â chymryd sylweddau cyfreithlon ac anghyfreithlon;
- Roedd 18 o ymatebwyr yn dadlau dros godi ymwybyddiaeth o beryglon cymryd sylweddau seicoweithredol newydd;
- Roedd 14 o bobl yn teimlo y byddai gwahardd sylweddau seicoweithredol newydd yn gyfan gwbl yn gyrru'r farchnad o dan ddaear, a chaniatáu troseddwr i elwa;
- Roedd 10 o ymatebwyr yn dadlau y dylid profi a gwerthuso sylweddau seicoweithredol newydd, a'u heffaith, yn gyflymach;
- Roedd 9 o bobl yn teimlo y dylid cau a gwahardd siopau sy'n gwerthu sylweddau seicoweithredol newydd dros y cownter;
- Dywedodd 8 o ymatebwyr y dylid gwahardd sylweddau seicoweithredol newydd nes y byddai'r risgiau iechyd wedi'u deall yn llawn;
- Roedd 8 o bobl yn teimlo y dylid ystyried goblygiadau costau hyn ar y GIG, sydd, yn y pen draw, yn trin pobl sy'n camddefnyddio sylweddau seicoweithredol newydd.;
- Roedd 6 o ymatebwyr o blaid gwahardd hysbysebu sylweddau seicoweithredol newydd ar sianeli cyfryngau cymdeithasol (e.e. Facebook a Twitter);
- Roedd 5 o bobl yn teimlo fod angen gwell monitro a rheoli sylweddau a gaiff eu gwerthu ar y rhyngwyd;
- Roedd 5 o ymatebwyr yn dadlau nad oedd sylweddau seicoweithredol newydd yn peri rhagor o risg i iechyd nag alcohol a thybaco, a hyd yn oed llai o fgythiad.;
- Roedd 4 o bobl yn teimlo y dylid cosbi pobl yn fwy llym am gael eu dal yn defnyddio neu'n gwerthu sylweddau seicoweithredol newydd;

- Gwnaeth 4 o ymatebwyr gais am ragor o hyfforddiant i bobl broffesiynol o ran deall camddefnyddio sylweddau seicoweithredol newydd;
- Roedd 3 o bobl yn teimlo ei bod yn rhy hawdd cael gafael ar sylweddau seicoweithredol newydd

Cwestiwn 8 – Beth yw eich oedran?

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 997


- 16 neu'n iau: **20.8% (207)**
- 17 – 24: **31.3% (312)**
- 25 – 44: **30% (299)**
- 45 – 59: **14.14% (141)**
- 60 – 64: **1.40% (14)**
- 65 neu'n hŷn : **1.50% (15)**
- Byddai'n well gennyf beidio â dweud : **0.90% (9)**



Cwestiwn 9 – Pa ryw ydych chi?

Cyfanswm nifer yr ymatebion: 993


- Gwryw: **43.20% (429)**
- Benyw: **56.00% (556)**
- Byddai'n well gennyf beidio â dweud: **0.80% (18)**



Ydych chi'n ystyried eich hun yn berson trawsrywiol?


Cyfanswm nifer yr ymatebion: 973

- Ydw: **1.74% (17)**
- Nac ydw: **94.55% (920)**
- Byddai'n well gennyf beidio â dweud: **3.7% (36)**



Cwestiwn 10 – Ym mha ardal awdurdod lleol rydych chi'n byw?

Tudalen y pecyn 131



Mark Drakeford AC / AM
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref LF/MD/1051/14
David Rees AM
Chair
Health and Social Care Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
CF99 1NA

24 October 2014

Factual briefing on the Public Health White Paper

Thank you for your letter of 9th October following the factual briefing on the Public Health White Paper provided by officials on 8th October.

The Committee has asked for my view on whether the National Assembly has legislative competence to implement a minimum unit price for alcohol in Wales and whether discussions have been held on this issue with the UK Government.

In my view, the National Assembly for Wales has the competence to legislate on a wide range of public health measures, including the proposals for minimum unit pricing of alcohol, pursuant to Schedule 7 to the Government of Wales Act 2006. Given this position, I confirm that neither I nor my officials have held any discussions with the UK Government other than to confirm the Welsh Government's intention to introduce minimum unit pricing for alcohol contained in the Public Health White Paper, '*Listening to you; your health matters*'.

We are, of course, also continuing to closely monitor the progress and associated implications of the Scottish Government's minimum unit pricing legislation currently being considered by the Court of Justice of the European Union.

Best wishes,
Mark.

Mark Drakeford AC / AM
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Mark.Drakeford@wales.gsi.gov.uk

Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailwylchu (100%)

Tudalen y pecyn 131

Printed on 100% recycled paper

HSC(4)-26-14

Paper to note 5

Health and Social Care Committee

**Factual briefing on the Public Health White Paper
Additional information from the Chief Medical Officer**

Follow up to Oral Evidence 8 October 2014: Dr. Ruth Hussey, Chief Medical Officer

Regarding the Committee's specific query about the statistical information referenced at para. 120, the exact figures from CHETS2 (Exposure to second hand smoke and e-cigarette use among 10-11 year old children in Wales) are that 6% had tried an e-cigarette; while 2% had tried a normal tobacco cigarette. The following is the direct quote from the report:

"Overall, 6% reported having used an e-cigarette at least once; three times as many as had tried smoking tobacco (2%). Hence, most children who reported that they had used an e-cigarette had never smoked a tobacco cigarette."

Y Pwyllgor Deisebau
Petitions Committee

Eitem 7.6
Cynlliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales



David Rees AM
Chair of the Health and Social Care
Committee
Welsh Government
Tŷ Hywel
Cardiff Bay
CF99 1NA

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

Our ref: P-04-568

October 2014

Dear *David*

The Petitions Committee is currently considering the following petition submitted by ABMU Victim Support Group:

Petition: P-04-568 Public Inquiry into ABMU Health Board

We call upon the National Assembly for Wales to urge the Welsh Government to hold a full public inquiry in order to investigate the serious concerns raised about standards of care and complaints handling within ABMU Health Board that have caused so much avoidable harm and suffering for patients and bereaved relatives at hospitals administered by the Board and its predecessor bodies and, where necessary, to hold the Chief Executive and the Management Team to account.

Further information relating to the Committee's consideration of the petition can be found via the following link:

<http://www.senedd.assemblywales.org/ielssueDetails.aspx?Ild=10122&Opt=3>

At our meeting on 23 September the Committee considered the attached correspondence from Minister for Health and Social Services and the petitioners.

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8242
E-bost / Email: Petition@wales.gov.uk

While it would not be the full public enquiry the petitioners are seeking, the Committee agreed to ask whether your Committee has any current plans to carry out an investigation into or scrutiny of the issues raised by the petition? If not, would this be something that your Committee would consider adding to its forward work programme?

Please forward your response to the Committee Clerking Team at Petition@Wales.gov.uk.

I look forward to receiving your response.

Yours sincerely

A handwritten signature in black ink that reads "William Powell". The signature is written in a cursive style with a large initial 'W'.

William Powell AC / AM
Cadeirydd / Chair

Enclosures:

- Correspondence from the Minister for Health and Social Services dated 25 July; and
- [Correspondence from petitioners.](#)

Mark Drakeford AC / AM
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-04-568
Ein cyf/Our ref MD/02705/14

William Powell AM
Assembly Member for Mid & West Wales
Chair Petitions committee

Ty Hywel
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

committeebusiness@Wales.gsi.gov.uk

25 July 2014

Dear William,

Thank you for your letter on behalf of the Petitions Committee regarding Petition P-04-568 - Public Enquiry into Abertawe Bro Morgannwg University Health Board.

The 'Trusted to Care' report findings did not make easy reading and I gave an unreserved apology to those individuals and their families whose care had fallen short of what they might expect from the Welsh NHS. I have made clear I expected immediate improvements to patient care at both hospitals concerned.

The Welsh Government is determined that nothing of this sort will be tolerated in these two hospitals, in this health board, or indeed anywhere else in Wales in the future. This is why we ordered a series of actions to ensure that the standards that we demand of our health service are being delivered and to reassure patients.

This included instigating a programme of unannounced spot checks in all district general hospitals across Wales to test standards of care and reassure patients. These unannounced spot checks are now well underway and being carried out by a team of senior individuals who will report directly to me. I updated Assembly Members on progress before the summer recess. I am also, over the Summer, seeking feedback on the Evans Report on complaints handling in the NHS in Wales.

*Best wishes,
Mark.*

Mark Drakeford AC / AM
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence: Mark.Drakeford@wales.gsi.gov.uk

Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)

Printed on 100% recycled paper